





# Ambassador Scholarship at Coleg Gwent

# Ysgoloriaeth Llysgennad yng Coleg Gwent

STUDENT AMBASSADORS

Coleg Gwent

**Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr Addysg Uwch Coleg Gwent**

Mae Coleg Gwent yn falch o gefnogi Cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr. Mae'r cynllun yn darparu cyfle cyffrous i fyfyrwyr ennill profiad gwaith amhrisiadwy a datblygu sgiliau arwain a chyfathrebu ymhellach. Heb amheuaeth, bydd cysylltiad â'r cynllun yn helpu pan fydd myfyrwyr yn gwneud cais am swyddi neu astudiaeth bellach/uwch.

Mae'r cynllun yn cynnwys dau faes y gall myfyrwyr gyfrannu atynt:

1. *Llysgennad Myfyrwyr: Digwyddiadau a Marchnata* Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at weithgarwch hyrwyddo a chynrychioli eich Ysgol wrth gyfarfod, cyfarch a helpu ymwelwyr mewn digwyddiadau pwysig gan gynnwys Nosweithiau Gwobrwyo, Nosweithiau Rhieni, Digwyddiadau Agored a nosweithiau pontio Ysgol. Gall y gweithgareddau gynnwys drafftio straeon newyddion, ffotograffiaeth, cynnal ymchwil i'r farchnad a datblygu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, Nosweithiau Gwobrwyo, Nosweithiau Rhieni, Digwyddiadau Agored a digwyddiadau pontio Ysgol.

2. *Llysgennad Myfyrwyr:* Profiad Dysgwyr Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda thimau staff i gefnogi datblygiad y profiad dysgu Addysg Uwch yng Ngholeg Gwent. Gall y gweithgareddau gynnwys: cynrychioli dysgwyr AU mewn Cyfarfodydd, Teithiau cerdded Dysgu trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys yn ystod yr wythnos profiad dysgwyr. Siarad â dysgwyr a helpu ymwelwyr mewn digwyddiadau pwysig gan gynnwys Nosweithiau Gwobrwyo, Nosweithiau Rhieni, Digwyddiadau Agored a digwyddiadau trosglwyddo Ysgol.

Gall myfyrwyr fod yn rhan o un neu'r ddau o'r gweithgareddau hyn. I gymryd rhan yn y cynllun, rhaid i ymgeiswyr fwynhau cyfathrebu a gweithio gydag eraill a dylent fod yn barod i gyfrannu trwy gydol y flwyddyn

**Cynllun Gwobrwyo**

Gall Llysgenhadon Myfyrwyr ennill hyd at £100 yn ystod y flwyddyn am wirfoddoli a chyflawni o leiaf 20 awr o ddyletswyddau fel llysgennad. Gall hyn gyfrannu at gostau coleg fel llyfrau, teithio, llety, offer.

**Atebolrwydd a Disgwyliadau**

Mae Llysgenhadon Myfyrwyr yn adrodd i'r Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ar y campws sy'n gweithio'n agos gyda'r Tîm Marchnata i reoli gweithgarwch y llysgenhadon.

Rydym yn disgwyl ymddygiad proffesiynol a dibynadwy gan ein holl Lysgenhadon. Mae prydlondeb yn angenrheidiol, yn ogystal ag agwedd gadarnhaol ac agwedd barod a brwdfrydig. Bydd angen i'r llysgenhadon gymryd rhan mewn sesiwn hyfforddi gychwynnol i wneud yn siŵr eu bod wedi paratoi'n dda ar gyfer y rôl. Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus arwyddo Cod Ymddygiad.

**I Grynhoi**

- Ydych chi'n gyfeillgar, yn gwrtais a bonheddig?
- Ydych chi'n mwynhau gweithio fel aelod o dîm?
- Ydych chi'n hoffi siarad â phobl?
- Ydych chi'n frwdfrydig ac yn mwynhau bywyd coleg?
- Ydych chi'n hoffi helpu pobl eraill?
- Ydych chi'n barod i gynorthwyo staff y Coleg mewn sesiynau Cynefino, Nosweithiau Rhieni, Nosweithiau Gwobrwyo, Digwyddiadau Agored a sesiynau Cyngor ac Arweiniad?

Os mai'r ateb i'r cwestiynau hyn yw 'Ydw', cysylltwch â ni a dilynwch y broses ymgeisio a fanylir isod.

**Sut i wneud cais**

Llenwch y Ffurflen Gais Llysgennad Myfyrwyr (ar gael yn ystod Ffair y Glas neu gan Bennaeth Gwasanaethau Dysgwyr eich campws). Ar y ffurflen bydd angen i chi egluro pam eich bod eisiau ymuno â'r cynllun.

Bydd angen i chi gyflwyno'r ffurflen i'r adran Gwasanaethau Dysgwyr a Derbynfa cyn 4pm ar ddydd Gwener 4 Hydref, i sylw'r Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr.

Yna bydd cyfweliadau grŵp yn cael eu cynnal o 14 Hydref ymlaen.

Dewisir yr ymgeiswyr a fydd yn cael cyfweliad ar sail y wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais, a gwneir y penderfyniad terfynol trwy gyfweliad grŵp gan y panel dethol. **Bydd angen i ddysgwyr roi eu manylion banc i'r Rheolwr (Profiad Dysgwr) neu'r Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr cyn gynted â phosib ar ôl iddynt gael eu derbyn.**

**Hysbysu Ymgeiswyr**

Byddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr trwy e-bost cyn gynted â phosib i roi gwybod iddynt a ydynt wedi cael eu derbyn i gymryd rhan yn y cynllun.

Noder:

Great care is taken to ensure that each Ambassador only contributes in part to thecollege/campus programme of events ensuring that the Ambassador role does not interfere with programmes of study at the College.